**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Mai 10fed 2021 yn Neuadd Y Rhiw**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Emlyn Jones, Wenda Williams, Nesta Roberts, Dafydd Williams, Gwenllian Hughes-Jones, RJ Williams, Iain Roberts a Wil Evans
**Yn y gadair:** Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerodd y Cyng Nesta Roberts y gadair
**1)Ymddiheuriadau a datgan diddordeb :** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gareth Roberts, Mari Evans ac RG Williams. Datganodd y Cyng Emlyn Jones ddiddordeb yng nghais cynllunio C21/0322/30/LL, Penarfynydd, Y Rhiw
**2)Cyhoeddiadau y cadeirydd:** Nid oedd gan y Cadeirydd gyhoeddiadau.
**3)Ethol Cadeirydd am y flwyddyn 2021-22:** Cynnigwyd, eilwyd ac ar bleidlais y mwyafrif etholwyd y Cyng Nesta Roberts yn Gadeirydd. Diolchodd y Cyng Nesta Roberts i'r Cyng Geraint Jones am ei waith yn ystod y flwyddyn oedd yn un anodd iawn o ganlyniad i bandemig y Covid 19. Ychwanegodd y bu'n rhaid cymeryd ambell i benderfyniad y tu allan i bwyllgor oherwydd y pandemig. Gobeithir y bydd y drefn arferol yn dychwelyd o hyn allan.
**4)Ethol Is Gadeirydd am y flwyddyn 2021-22:**Cynnigwyd, eilwyd ac ar bleidlais y mwyafrif etholwyd y Cyng Wenda Williams yn is gadeirydd.
**5)Adroddiadau gan gynrhychiolwyr ar gyrff allannol ac ethol cynrhychiolwyr i gyrff allannol**
a)Neuadd y Rhiw: Adorddodd y Cyng Emlyn Jones fod y neuadd bellach wedi ail agor yn dilyn y cyfnod clo.
b)Pwyllgor cae chwarae: Adroddodd y Cyng Gwenllian Hughes Jones fod £72 ar ôl yng nghyfri y cae chwarae ac y bydd yr ymgyrch codi arian yn parhau gyda ocsiwn ar-lein yn fuan.
c)Ysgol Crud y Werin: Adroddodd y Cyng Gwenllian Hughes-Jones fod cyfarfod llywodraethwyr i'w gynnal yn fuan a'i bod wedi bod yn gyfnod anodd i'r ysgol fel pob ysgol arall o ganlyniad i'r pandemig.
ch)Canolfan Crud y Werin: Nid oes cyfarfod wedi bod ac arhosir am ateb gan bennaeth yr ysgol yn dilyn gohebiaeth gan y Cyngor ynghylch cynrhychiolaeth o'r gymuned leol ar y pwyllgor.
d)Canolfan Deunant: Adroddodd y Cyng Wenda Williams fod pethau yn mynd yn iawn yng Nghanolfan Deunant.
dd)Ardal Cadwraeth Pen Llŷn a'r Sarnau: Adroddodd y Cyng Iain Roberts nad oes pwyllgor wedi bod yn ddiweddar.
e)Unllais Cymru: Adroddodd y Cyng Wenda Williams fod y cyfarfodydd yn ddefnyddiol iawn.
f)AHNE Llŷn: Adroddodd y Cyng Wenda Williams fod adran AHNE y Cyngor yn dymuno mwy o fewnbwn i'r broses gynllunio yn yr ardal.
ff)Grwp Mynediad Dwyfor: Adroddodd y Cyng Emlyn Jones nad oes cyfarfod wedi bod.
g)Fforwm Mynediad Lleol Arfon a Dwyfor: Adroddodd y Cyng Emlyn Jones nad oedd yn bosibl iddo ymuno gyda y cyfarfod oedd wedi ei gynnal.
**6)Adolygu Rheolau Cyllidol, Sefydlog a Mewnol y Cyngor ynghyd ag asesiad risg, rhestr asedau ac yswyriant y Cyngor:** Adolygwyd y polisiau ac nid oedd yr aelodau yn teimlo fod angen newid eu cynnwys ar hyn o bryd. Nodwyd y bydd y rhestr asedau yn cael ei diweddaru gan fod offer newydd wedi eu prynu ar gyfer y cae chwarae.
**7)Mabwysiadu côd ymddygiad:** Mabwysiadwyd y Côd Ymddygiad
**8)Lwfansau Cynghorwyr:** Nodwyd bod gan y Cynghorwyr hawl i godi lwfans ond nid yw yr aelod yn dymuno gwneud hynny. Nodwyd fod lwfans ar gael petai cynghorwyr angen ad-dalu costau teithio os yn mynychu cyfarfodydd neu gyrsiau yn rhinwedd eu gwaith fel cynghorwyr cymuned.
**9)Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed o Ebrill 2021:** Nodwyd yn eitem 8iii) fod angen gorffen trwsio y gwter yn ogystal ger Bodrydd. Bydd angen cadarnhau y cofnodion yn y cyfarfod nesaf.
**10) Materion yn codi o'r cofnodion**
i)Cae Chwarae: Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod safle a gynhaliwyd ar 29ain o Ebrill ar safle y cae chwarae. Yn bresennol yn y cyfarfod oedd Y Cyng Geraint Jones, Gwenllian

Hughes-Jones, Iain Roberts, Emlyn Jones, Wenda Williams, Mari Evans a Dafydd Williams. Prif bwrpas y cyfarfod oedd i drafod yr angen am 120 medr sgwar o dywyrch i orffen wynebu y cae. Oherwydd bod brys i gael y tywyrch, penderfynwyd rhoi caniatad i bwyllgor y cae chwarae fynd ymlaen i'w archebu ac i geisio cael criw o wirfoddolwyr i'w osod.
Tynnwyd sylw at yr angen am fynediad i'r anabl i'r cae a phenderfynwyd y byddai cerrig mân yn addas i wynebu y llwybr sy'n arwain at y cae yn y tymor byr, ac i geisio cael grant i'w darmacio er mwyn ei wneud yn addas i'r anabl.
Hefyd yn ystod y cyfarfod safle trafodwyd llythyr gan Julie Carew, Glasdon oedd yn tynnu sylw fod y gweithwyr fu yn gosod y ffens wedi troi y beipen landar a bod dwr wedi llifo i'w cegin a bod côst o £100 er mwyn ei sychu. Hefyd roedd yn datgan pryder fod preifatrwydd wedi ei golli gan fod y gwrych rhwng eu heiddo a'r llwybr i'r cae chwarae wedi ei dorri yn y bôn a bod y ffens newydd wedi ei sgriwio bostiau y ddôr sy'n arwain i'w heiddo. Cynnigwyd y byddai y Cyngor yn talu am sgrîn ac y byddai y clerc yn cysylltu gyda hi cyn gynted a phosib i drafod ymhellach.
Derbyniwyd yr adroddiad a phenderfynwyd y byddai y Cyngor yn talu am sgrîn ar gyfer y terfyn gyda Glasdon ac i'r clerc ofyn i Mrs Carew os y gwnaiff anfon pris y sgrîn maent yn ddymuno ei gael i'r Cyngor.
Adroddodd y Cyng Gwenllian Hughes-Jones y bydd gwirfoddolwyr yn gosod y tywyrch nos Iau ac mae grantiau ar gael ar gyfer creu mynediad i'r anabl.
Roedd y Cyng Iain Roberts wedi cyfarfod gyda Warren o gwmni 4C Security ii drafod y TCC ond roedd o eisiau gwneud yn sicr o reolau ynghylch gosod camarau mewn cae chwarae er mwyn gwneud yn siwr o'r cyfreithiau.
Derbyniwyd awgrymiadau am wahanol fathau o gamerau gan Arfon Roberts o gwmni Gwynedd Cash Registers yn ogystal (ni chymerodd y Cadeirydd ran yn y drafodaeth ar y pwynt yma oherwydd cysylltiad teuluol).
Penderfynwyd y dylai prisiau gael eu derbyn am system TCC gan Gwmni 4C a gan Gwynedd Cash Registers, mae aelodau y Cyngor am holi cwmniau lleol ynghylch eu systemau yn ogystal.
Mae'r Cyngor yn teimlo y dylai system solar gael ei defnyddio er mwyn osgoi gorfod cael trydan.
Mae bil o £4956 wedi ei dderbyn gan Gareth Williams am ffensio y cae chwarae, penderfynwyd peidio a'i dalu ar hyn o bryd gan nad yw wedi gorffen y gwaith.
i)Materion yr Eglwys Newydd ac archwiliad o'r fynwent: Bydd y Cyng RJ Williams yn rhoi adroddiad yn dilyn archwiliad o'r fynwent mis nesaf (ond cadarnhaodd ei fod wedi archwilio y fynwent a bod pob dim mewn trefn yno)
iii)Ymateb Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau: Dim wedi eu derbyn hyd yma. Tynnwyd sylw nad oes ymateb wedi dod am gais y Cyngor am arwyddion ar y troeadau ger Geufron a ger Eglwys Bodferin a bod gwir angen ateb erbyn hyn.
iv)Canolfan Crud y Werin: Does dim ymateb wedi ei dderbyn hyd yma.
v)Gor yrru ar y B4413 yn Aberdaron: Derbyniwyd ateb gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y byddant yn gosod cyfarpar mesur cyflymder ar y ffordd (a chadarnhaodd aelodau fod y cyfarpar wedi eu gosod) ac y bydd y data a gesglir yn cael ei asesu. Fe fydd y posibilrwydd o greu palmant ar hyd ochr y ffordd hefyd yn cael ei drafod.
vi)Ffynhonnau dwr: Nid oedd y Cyng Geraint Jones a gododd y mater yn bresennol yn y cyfarfod.
vii)Y traeth: Derbyniwyd ateb eto gan Barry Davies yn datgan na fydd y byrddau yn cael eu gosod ond y bydd cerrig yn cael eu gosod yn y fynedfa o'r maes parcio i'r traeth er mwyn hwyluso lansio. Ychwanegodd fod gweithwyr yr adran wedi cael trafferth pan yn ceisio codi ffî lansio ychydig flynyddoedd yn ôl ac felly mae yn un o'r unig draethau yng Ngwynedd lle na chodir ffî lansio
Tynnwyd sylw fod rhaid bod yn ofalus neu fe fydd cerbydau 4x4 a *jet skis* ymhobman gan fod sôn fod gwerthiant *jet skis* yn lleol wedi cynnyddu yn sylweddol yn ddiweddar wrth i bobl beidio a mynd dramor ar eu gwyliau.
Mae y Cyngor yn siomedig ym mhenderfyniad Cyngor Gwynedd ac yn pwysleisio yr angen am osod cerrig yn rhan uchaf y traeth er mwyn hwyluso lansio.

**11) Gohebiaethau**
Dim wedi eu derbyn
**12) Cynllunio**
Cais C21/0365/30/DT, Y Ddôl, Aberdaron, Pwllheli, LL53 8BP, estyniad unllawr - dim gwrthwynebiad
C21/0363/30/DT Conion Ganol, Rhiw, Pwllheli, LL53 8AU, Amnewid to ar estyniad to unllethr - dim gwrthwynebiad
C21/0322/30/LL: Penarfynydd, Rhiw, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8AG Bwriad / Proposal: Newid defnydd tir i osod uned arlwyo symudol ynghyd a datblygiadau cysylltio - dim gwrthwynebiad.
**13)Ariannol**
Mantolen 2020-21: Derbyniwyd adroddiad ariannol a thrafodwyd y fantolen am y flwyddyn ariannol ddaeth i ben ar y 31ain o Fawrth 2021, derbyniwyd y fantolen.
Tynnwyd sylw fod gan y Cyngor swm sylweddol o arian wrth gefn a nodwyd fod yr arian wrth gefn yn cael ei glustnodi ar gyfer adnewyddu yr eglwys a phrynu tir er mwyn creu estyniad i'r fynwent.
Cyflwynwyd y ffurflen flynyddol i'r Cyngor a nodwyd y cysoniad banc, trafodwyd a chwblhawyd y datganiad llywodraethu. Arwyddwyd y ffurflen gan y Cadeirydd a'r Clerc.
Disgwylir am ddyddiad gan Gyngor Gwynedd ar gyfer yr archwiliad mewnol i'r cyfrifon.
**Taliadau**
Awdurdodwyd y taliadau canlynol:
Iwan Hughes: £177.41 (siec)
HMRC (Paye): £44.20 (bacs)
Costau clercio: £14.39 (zoom am fis) (siec)
Glasdon: £156 (bin y cae chwarae) (bacs)
Huws Gray: £668.16 (tywyrch i'r cae chwarae) (bacs)
Neuadd Y Rhiw: £30 (2 gyfarfod) (bacs)
**Derbyniadau**
Praesept: £7,500
**8) Materion ffyrdd a llwybrau**
i)Mae twll yn y ffordd rhwng Cae Graig a Bryn Meurig a gwter angen ei drwsio wrth droi i gyfeiriad Felin Uchaf.
ii)Nodwyd nad ydi adran cynllunio Cyngor Gwynedd yn ymateb i gwynion am garafannau sefydlog yn yr ardal. Mae cwynion wedi eu cyflwyno e.e y garafan ger Bodwyddog Bach.
iii)Mae'r arwydd yn cyfeirio at Porthor wedi llithro i lawr y polyn ger Eglwys Bodferin.
iv)Mae coed yn tyfu allan i'r ffordd ger Sunny View, Rhydlios.
v)Mae tirlithriad ar y traeth yn Aberdaron, penderfynwyd gwneud cais am arwydd yn rhybuddio pobl o berygl.
vi)Teimlir fod angen i'r heddlu ymweld â'r ardal yn amlach, yn enwedig gan fod difrod wedi cymeryd lle i ddrws yng nghefn Canolfan Deunant yn ddiweddar.
vii)Mae llawer o sbwriel wedi ei adael ar ben yr allt yn Aberdaron yn ddiweddar gan bobl sydd wedi bod yn gwersylla yno - penderfynwyd tynnu sylw yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol at hyn.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yng Nghanolfan Deunant, nos Lun,y 14eg o Fehefin am 7.30yh**